BRITISH COUNCIL | Wales Cymru



# Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2020

wales.britishcouncil.org

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno'r tueddiadau diweddaraf o ran y nifer sy'n dewis dysgu ieithoedd ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru yn ogystal â dadansoddiad o'r ffigurau hynny.

Mewn blwyddyn a welodd heriau sylweddol ym mhob sector, gan gynnwys ysgolion a byd addysg, cyhoeddir y ffigurau hyn ochr yn ochr â rhaglen 'Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2020: Y Sgwrs'; cyfres o erthyglau a chyfraniadau gan arbenigwyr a rhanddeiliaid ym maes dysgu ieithoedd yng Nghymru. Ein nod yw cyflwyno amrywiaeth o syniadau a safbwyntiau treiddgar am sut y gall Cymru fynd i'r afael â'r dirywiad parhaus yn nifer ei dysgwyr iaith a datblygu'n begwn disglair o ran addysgu a dysgu ieithoedd.

Gall cymharu ffigurau eleni â blynyddoedd blaenorol fod yn broblem oherwydd effaith Covid-19 ar arholiadau mewn ysgolion yn 2020. Serch hynny maent yn arwydd o dueddiadau mwy hir-dymor ac yn dal i amlygu pa mor isel yn gyffredinol yw'r nifer sy'n dysgu ieithoedd ym maes addysg Cymru. Yn ogystal, mae'r heriau sy'n wynebu ysgolion yn cynyddu o ganlyniad i'r pandemig ac mae'n bosib y gall hyn gael effaith ar dueddiadau ieithoedd a'r gwaith o'u hyrwyddo – sefyllfa y bydd yn rhaid cadw golwg agos arni.

Wrth graffu ar y tueddiadau mewn ITM dros y 10 mlynedd ddiwethaf, gwelir gostyngiad o 53% yn y cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn ieithoedd. Yn ystod yr un cyfnod mae ffigurau Safon Uwch wedi disgyn o 48% - ac mae cyfradd y dirywiad yn cynyddu.

Cafodd canfyddiadau'r adroddiad yma eu crynhoi wrth ddefnyddio data am gofrestriadau TGAU a Safon Uwch a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Mae'r data'n cynnwys cofrestriadau gan ddysgwyr o bob oedran ac o bob math o sefydliadau gan gynnwys ysgolion, colegau addysg bellach a chanolfannau i oedolion


### Canfyddiadau allweddol 2020

- Mae nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern (ITM) yn parhau i ddisgyn yng Nghymru gyda gostyngiad o 10% ar gyfer TGAU a gostyngiad o 16% ar gyfer Safon Uwch ers 2019
- Er bod y ffigurau ar gyfer Ffrangeg ac Almaeneg wedi sefydlogi rhywfaint, gwelwyd gostyngiad o 19% ar gyfer TGAU Sbaeneg ac 15% ar gyfer Safon Uwch Sbaeneg ers llynedd
- Gwelwyd y dirywiad mwyaf mewn cofrestriadau rhwng 2019 a 2020 ym maes 'Ieithoedd Eraill' gyda gostyngiad o 54% ar gyfer TGAU a 34% ar gyfer Safon Uwch.

# Data Arholiadau

## Cofrestriadau TGAU

O'u cymharu â ffigurau 2019, gwelwyd gostyngiad o bron i 10% mewn cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn ieithoedd yn 2020. Mae hyn yn dilyn tuedd o flwyddyn i flwyddyn sy'n dangos gostyngiad o 64% yn y ffigurau ers 2002.[1]




[1] Gweler Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2018 (Tud 22) am y tabl cyflawn o ffigurau ar gyfer 2002-2018.



## Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg

Am y tro cyntaf ers 2002, gwelwyd cynnydd bach o 1.5% mewn cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg rhwng 2019-2020, ond mae'r duedd fwy hirdymor yn dal i ddangos dirywiad sylweddol. Mae nifer y cofrestriadau ar gyfer Almaeneg wedi sefydlogi rhywfaint hefyd gyda gostyngiad o 0.7% yn unig. Er hynny, o'r tair prif iaith a ddysgir, Almaeneg sydd â'r ffigurau isaf o hyd o ran y nifer sy'n dewis ei hastudio.

Cafodd y mymryn hwn o sefydlogi ei broffwydo llynedd yn adroddiad Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru (2019)[2] wrth i 36% o'r athrawon nodi bod llai o ddisgyblion yn astudio ITM ym Mlwyddyn 11 nag yn 2018; nododd 31% fod *mwy* o ddysgwyr wedi dewis astudio iaith yn eu hysgolion, "sydd o bosib yn cynnig llygedyn o obaith y gall y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio iaith ar gyfer TGAU yn 2020 fod yn llai serth nag a welwyd yn 2019."

Bu gostyngiad o 19% yn y nifer a ddewisodd astudio Sbaeneg rhwng 2019-20, o'i gymharu â chanran tebyg o gynnydd a welwyd y llynedd. Wrth edrych ar y duedd o ran Sbaeneg dros bum mlynedd, mae'n bosib mai'r drefn a fabwysiadwyd gan rai ysgolion o ddysgu bob yn ail garfan (lle cynigir TGAU Sbaeneg bob yn ail flwyddyn) sy'n gyfrifol am y patrwm anwadal a welir.

## Ieithoedd Eraill

Gwelwyd y dirywiad mwyaf o bell ffordd mewn cofrestriadau ar gyfer 'Ieithoedd Eraill', sydd wedi haneru ers y llynedd. Yn wir, yng nghategori 'Ieithoedd Eraill' y gwelwyd y dirywiad mwyaf o ran cofrestriadau mewn unrhyw faes pwnc yn y Deyrnas Unedig yn 2020.[3] Tan eleni, gwelwyd ychydig o gynydd yn y duedd ar gyfer y nifer oedd yn dewis Ieithoedd Eraill, er bod yr ystadegau hynny'n cychwyn o sylfaen bychan.

Mae 15 o ieithoedd gwahanol yn y categori hwn, sef ieithoedd sy'n cael eu cynnig ar gyfer TGAU yn y Deyrnas Unedig (nid oes modd manylu am yr ieithoedd yma yng Nghymru'n benodol gan fod y niferoedd mor fach). Mae'r ieithoedd yma'n cynnwys Eidaleg, Tsieinëeg, Pwyleg, Arabeg ac Wrdw.[4] Yng Nghymru, ni ddysgir y rhan fwyaf o'r ieithoedd yma'n ffurfiol mewn ysgolion ac felly tybir mai o golegau addysg bellach neu faes addysg oedolion neu addysg gymunedol y daw'r cofrestriadau. Wedi dweud hynny, mae mwyafrif y cofrestriadau hyn, 87% (90% yn 2019), yn unigolion 16 oed neu iau ac felly'n dal i gynrychioli dysgwyr mewn addysg orfodol. Mae'n bosib bod effaith Covid-19 ar arholiadau wedi dylanwadu ar nifer y cofrestriadau yn y categori hwn – heb athro/athrawes na strwythur dysgu ffurfiol, ni fyddai modd rhoi graddau wedi'i hasesu gan athrawon fel dewis arall yn lle arholiad ffurfiol.

[2] Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2019 (Tud 20)
[3] JCQ (2020) – 'GCSE, Project, and Entry Level Trends - UK, 2020'
[4] JCQ (2020) – 'GCSE Other MFL entries 2019-2020'



## Effaith Covid-19 ar gefnogaeth a mentora

Mae adroddiad Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2019[5] yn cydnabod gwerth a chyfraniad asiantaethau allanol a rhaglenni sy'n darparu cefnogaeth a mentora ar gyfer ITM drwy fentrau Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru fel Llwybrau at Ieithoedd Cymru a Phrosiect Mentora Myfyrwyr ITM. Wrth i flwyddyn ysgol 2020/21 ddechrau, mae'n rhy gynnar eto i ddweud pa effaith y caiff Covid-19 ar allu athrawon i barhau i gael mynediad at y gefnogaeth yma.




[5] Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2019 (Tud 21)

## Cofrestriadau Safon Uwch


Gwelwyd gostyngiad nodedig hefyd eleni yn ffigurau Safon Uwch ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern gyda 16% yn llai o gofrestriadau nag yn 2019. Nodwyd gostyngiad bach yn y ffigurau ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, a chwymp mwy sylweddol yng nghategori 'Ieithoedd Eraill'. Er, wrth gychwyn gyda rhifau isel ar draws y categoriau'n gyffredinol, mae amrywiadau bach yn nifer gwirioneddol y cofrestriadau yn cael effaith fawr i bob golwg ar y newidiadau a welir yn y canrannau.

Gwelwyd gostyngiad bach o 6% yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer Ffrangeg rhwng 2019-20, sy'n gyson â thuedd y pedair blynedd diwethaf. Ond, mae hyn yn golygu bod nifer gwirioneddol y cofrestriadau wedi disgyn yn is na 300 am y tro cyntaf. Gwelwyd mymryn o ostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Almaeneg, ond mae tuedd y tair blynedd diwethaf yn gymharol sefydlog. Er hynny, mae'r niferoedd ar gyfer Almaeneg yn parhau'n gyson isel, gan hofran o gwmpas 70 o gofrestriadau'r flwyddyn drwy Gymru gyfan.

Wedi cynnydd yn y flwyddyn flaenorol, mae nifer y cofrestriadau ar gyfer Sbaeneg hefyd wedi gostwng o 15% yn 2020. Mae patrwm anwadal y cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch Sbaeneg yn adleisio'r un patrwm a welwyd gyda ffigurau TGAU, ac efallai felly'n dynodi bod ymchwydd o ddarpar ddysgwyr yn yr arfaeth.

Fel gydag ystadegau TGAU, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y niferoedd a gofrestrodd ar gyfer 'Ieithoedd Eraill', gyda dirywiad o 34% rhwng 2019-2020. Mae hyn wedi dylanwadu'n benodol ar gyfanswm cyffredinol nifer y cofrestriadau ar gyfer ITM, ac mae'n debygol bod Covid-19 wedi cael effaith debyg i'r hyn a welwyd gyda TGAU.

### Cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch mewn ITM, Cymru 2016-2020



# Y Dyfodol

Roedd adroddiad Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2019[6] yn dangos rhywfaint o dystiolaeth bod y cwricwlwm newydd yn annog cydweithio agosach rhwng adrannau Ieithoedd Tramor Modern a Chymraeg a Saesneg. Ond, roedd y pwyslais presennol ar Saesneg a Chymraeg yn golygu nad oedd athrawon yn teimlo'n optimistaidd am ddyfodol ITM. Roedd hyn yn destun siom o ystyried y potensial aruthrol ar gyfer cydweithio wrth addysgu Cymraeg, Saesneg ag ieithoedd rhyngwladol, ac fe fyddwn yn parhau i fonitro hyn fel rhan o adroddiad Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru y flwyddyn nesaf.

Nid yw'r canlyniadau yma'n destun syndod yng nghyd-destun addysgu a dysgu ieithoedd yn y Deyrnas Unedig. Yr oedd adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)[7] yn craffu am y tro cyntaf ar yr amser a dreulir yn addysgu ITM mewn ysgolion (dysgwyr 15 oed). Ymysg gwledydd yr OECD, dengys yr adroddiad mai dysgwyr o'r Deyrnas Unedig sy'n treulio'r cyfanswm trydydd isaf o amser mewn gwersi iaith - 1.7 awr yr wythnos yn unig ar gyfartaledd, o'i gymharu â chyfartaledd yr OECD o 3.6 o oriau.

Dim ond Awstralia a Seland Newydd sy'n is ar y rhestr. Ond, gyda'r cwricwlwm newydd fe ddaw potensial am gymwysterau newydd ac mae Cymwysterau Cymru'n cynnal rhaglen ymgynghori[8], gyda rhanddeiliaid – gan gynnwys pobl ifanc – yn edrych ar y math o gymwysterau y bydd eu hangen.

Mae adroddiadau 'Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru' blaenorol wedi dangos bod cyflwyno cyrsiau TGAU a Safon Uwch newydd wedi cryfhau'r ddirnadaeth bod ITM yn bwnc anodd sydd ond yn addas ar gyfer y dysgwyr mwyaf galluog.[9] Roedd arholiadau anodd a chanlyniadau TGAU siomedig, a gafodd effaith negyddol ar y nifer o ddysgwyr ôl-16 sy'n dewis ITM, ymysg y rhesymau a nodwyd gan athrawon i esbonio'r dirywiad yn y nifer sy'n astudio ITM.

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru eu bod wedi gofyn i CBAC adolygu manyleb y TGAU newydd ar gyfer ITM ar ôl derbyn adborth gan randdeiliaid *bod yr asesiad ar gyfer y cymwysterau hyn yn rhy feichus a bod ehangder a natur y cynnwys yn heriol i fyfyrwyr.*[10] Adleisir hyn mewn adolygiad tebyg gan Ofqual, a ganfu fod achos digon cryf dros addasu safonnau graddio TGAU mewn Ffrangeg ac Almaeneg yn Lloegr.

Er nad yw hyn yn anisgwyl, o gofio bod gan y cymwysterau yng Nghymru fformat tebyg iawn i'r rheini yn Lloegr, bydd angen safonnau meincnodi newydd ar y cwricwlwm newydd. Felly, efallai y gallai Cymru droi ei golygon at Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR) a ddefnyddir bellach nid yn unig yn Ewrop, ond ledled y byd. Mae'n canolbwyntio ar sut y gall dysgwyr wneud defnydd gwirioneddol o iaith, yn hytrach na chymwysterau. Nid yw'n dweud wrth athrawon beth i'w wneud, na sut i'w wneud, ond yn hytrach mae'n gosod safonnau clir i'w cyflawni ar gyfer pob cam wrth ddysgu iaith. Yn bwysicaf oll, mae'n galluogi cydnabod cymwysterau iaith yn genedlaethol a rhyngwladol. Bydd hyn yn angenrheidiol i Gymru os/pan byddwn yn troi oddi wrth gymwysterau a ddatblygwyd yn Lloegr.



6 Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru (2019)

7 OECD (2020), PISA 2018 Results (Volume V): Effective Policies, Successful Schools, PISA, OECD Publishing, Paris, https://doi.org/10.1787/ca768d40-en.


8 Cymwysterau Cymru: 'Cymwys ar gyfer y dyfodol'

9 Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru (2019)

10 Cymwysterau Cymru 2019







**Gwybodaeth bellach**

Os oes cwestiynau gennych am yr adroddiad hwn, cysylltwch â Phennaeth Addysg British Council Cymru, Dr Walter Ariel Brooks:
**walterariel.brooks@britishcouncil.org**